



24/04/13

## Parthed: Profion ac Asesiadau Cyfnod Allweddol 3 - blwyddyn 7, 8 a 9

Annwyl Riant/Warcheidwad

Ysgrifennaf atoch er mwyn hysbysu pob rhiant o'r asesiadau a phroffion amrywiol sy'n wynebu ein disgyblion yn ystod y tymor hwn. Mae'r sefyllfa wedi newid rhywfaint ers cyhoeddi calendr gwreiddiol yr ysgol – felly mae'n bwysig iawn ein bod yn ceisio egluro'n gwbl glir beth yw'r sefyllfa bresennol.

### Profion Darllen a Rhif Cenedlaethol

Fel yr ydych yn ymwybodol mae'n debyg, fel rhan o strategaeth Llywodraeth Cymru i godi safonau Llythrennedd a Rhifedd, mae'r profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol yn orfodol ym mis Mai eleni ar gyfer pob dysgwr o fl.2 i flwyddyn 9. Mae'r rhain yn newydd eleni ac mae'r wybodaeth amdanynt wedi ein cyrraedd ers gosod yr amserlen asesu wreiddiol ar gyfer Cyfnod Allweddol 3. Golyga hyn wrth reswm fod yn rhaid i ni osod profion ffurfiol ar rifedd a darllen (Cymraeg a Saesneg) i bob un o'n dysgwyr ym mlwyddyn 7, 8 a 9. 30 munud yw hyd y prawf rhif a'r prawf darllen yn y ddwy iaith yn 60 munud (gyda hyd at 20 munud ychwanegol ar gyfer paratoi a gweinyddu).

O ran y profion Darllen a Rhifedd ein dewis fel ysgol yw gweinyddu'r rhain yn Neuadd yr ysgol gyda blwyddyn gyfan yn bresennol yn sefyll prawf darllen Cymraeg, prawf darllen Saesneg neu brawf Rhif. Golyga hyn y bydd pob dysgwr ym ml.7, 8 a 9 yn wynebu tri phrawf - cynhelir y profion darllen yn y ddwy iaith yn ystod y sesiynau dwbl (gwersi 1 a 2, a gwersi 4 a 5) a'r profion Rhif yn y wers sengl rhwng egwyl a chinio (gwers 3). Un prawf yn unig y bydd gan bob blwyddyn ar un diwrnod penodol. Cynhelir y profion dros gyfnod o dridiau ddechrau Mai eleni:

Profion Darllen a Rhif	Mai 8 2013	Mai 9 2013	Mai 10 2013
Blwyddyn 7	Prawf Rhifedd	Darllen Saesneg	Darllen Cymraeg
Blwyddyn 8	Darllen Saesneg	Darllen Cymraeg	Prawf Rhifedd
Blwyddyn 9	Darllen Cymraeg	Prawf Rhifedd	Darllen Saesneg

### Asesu Blwyddyn 9

Yn ychwanegol at yr uchod wrth gwrs pennir lefel diwedd Cyfnod Allweddol 3 i bob disgybl ym mlwyddyn 9 yr haf hwn hefyd. Bydd y lefelau Cwricwlwm Cenedlaethol hyn yn rhan o adroddiad manwl a rennir â chi fel rhieni ddiwedd y tymor hwn.

Yng nghalendr yr ysgol nodir yr wythnos nesaf fel wythnos o broffion i flwyddyn 9. Mae'r disgyblion yn ymwybodol nad yw hyn yn wir bellach. Gyda'r profion ychwanegol hyn a'r pwyslais yn Asesiadau Cyfnod Allweddol 3 ar asesu parhaus nid oes angen cyfnod o broffion ffurfiol fel hyn ym mlwyddyn 9 - er y cynhelir profion mewn pynciau unigol dros yr wythnosau nesaf yn ôl trefn asesu'r adrannau unigol hynny.

### Profion Blwyddyn 7 ac 8

Atgoffir disgyblion blwyddyn 7 ac 8 y cynhelir arholiadau iddynt yn yr ystafelloedd dosbarth yn ystod yr wythnos Mehefin 10-14.

Gobeithiaf fod y manylion uchod yn egluro'r sefyllfa asesu yn Ysgol Tryfan yng Nghyfnod Allweddol 3 y tymor hwn.

Yn gywir

Gwyn Tudur  
(Pennaeth)



Ysgol Tryfan  
Lôn Powys, Bangor, Gwynedd. LL57 2TU  
☎ 01248 352 633    📠 01248 361 264  
[pennaeth@tryfan.gwynedd.sch.uk](mailto:pennaeth@tryfan.gwynedd.sch.uk)    [www.ysgoltryfan.org](http://www.ysgoltryfan.org)

Pennaeth/Headteacher: Gwyn Tudur

